


RHUFAIN—EGLWYS ST. PEDR A CHASTELL ANGELO.

# HANES BYWYD PIO NONO,

## DIWEDDAR BAB RHUFAIN.

TARDDA yr enw PAB oddiwrth y gair Groeg *Pappas*, neu Dad. Arddelid ef gan holl weinidogion boreuaf Cristionogaeth, ond ni ddaeth yn urddenw neillduol hyd amser Cyprian, Ambrose, Jerome, ac Awstin. Ymddengys fod ymdrafodaeth wedi cymeryd lle yn mhlith y dysgedigion o berthynas i addasrwydd y teitl yn nglŷn â swyddogaethau gweinidogion israddol: a chanfyddir, oddiwrth eu gwahanol ysgrifeniadau, mai yr esgobion, neu y gweinidogion uwchraddol, oedd y personau priodol i'w tadoli. Tua'r wythfed ganrif, cawn fod Cynghor Cyffredinol wedi ei gynal yn Nghaer Cystenyn, yn ystod pabaeth Leo III., yn mha un y penderfynwyd mai i Esgob Rhufain yn unig y perthynai yr urddas; ac anfonwyd cylchlythyr at y galluoedd cylchynol i'w hysbysu o'r penderfyniad. Ychydig o sylw a dalwyd i hyn ar y cyntaf, ac yr oedd yn rhaid cael yspryd di-ildio a llaw haiarnaidd Gregori VII, i gwblhau yr hyn oedd yn mryd ei ragflaenydd.

Gwysiwyd ynghyd ganddo nifer o esgobion Eidalaidd i Rufain, yn y flwyddyn 1073, a ffurfiwyd o honynt Gynghor, yn yr hwn y cadarnhawyd cynygiad Leo III., ac y cyhoeddwyd dedfryd o esgymundod ar yr Ymerawdwr Harri, ac nad oedd ond Esgob y Ddinas Dragywyddol i gael ei gyfenwi y "Pab" o hyny allan. Wedi hawlio i benadur yr Eglwys Babaidd y rhan hon o uchafiaeth ac awdurdod, ac iddi gael math o flaenoriaeth gydnabyddol ar yr Eglwys Roegaidd ac eglwysi ereill, nid rhyfedd i'w hesgob ryfygu ychwanegu at ei ddylanwad, ac estyn ei gortynau i bob cyfeiriad; a chawn o ganrif i ganrif, er gwaethaf amgylchiadau chwyldroawl, mai arwydd-eiriau y Pabau oeddynt,—"Peidio rhoddi i fyny y mymryn lleiaf o'u hawliau, ymestyn yn mlaen at awdurdod ychwanegol, a gwylio manteision amgylchiadau i wneyd hyny."

Ychydig oedd gallu tymhorol y Babaeth hyd y ddeuddegfed ganrif, pan y cyflwynodd Innocent III. iddi Rufain a'r taleithiau cylchynol fel ei heiddo; dyma yr adeg y diflanodd y gallu ymerodrol tramorol a reoleiddiai etholiad y Pabau. Yr oedd amgylchiadau ffafriol wedi dwyn amryw o deyrnasoedd dan deyrnged iddi cyn hyn, ond ni chydnabyddwyd ei gallu tymhorol fel teyrn arnynt hyd y dygwyddiad a enwir uchod. Dyma y pryd y daeth Pabaeth Rhufain i gael edrych arni fel ymerodraeth gyffredinol. Yr oedd ei chardinaliaid yn dwyn y teitl o gynghorwyr, llysgen-



Digitized by Google

adau y Pab yn y gwahanol deyrnasoedd yn fechdeyrn, yr archesgobion a'r esgobion yn rhaglawiaid, yr offeiriaid yn weinidogion ceidwadol, ac yn rheolwyr y cyllidau, a'r amrywiol urddau crefyddol yn filwyr sefydlog y Bugail Rhufeinig.

Dan y fath lywodraeth eang, pa syndod ydyw fod gwraidd Pabyddiaeth wedi ymledu dros bedwar ban y byd, ac fod ofergoeledd wedi llochesu yn mynwesau ein cyndadau yn yr oesoedd tywyll!

Er hyny, cafodd y grefydd Babaidd ei dyddiau tywyll o bryd i bryd, ac ysgydwyd hi i'w seiliau gan genadau y Diwygiad Protestanaidd o dro i dro, ond nid un adeg yn fwy na phan gododd Luther, Zuinglius a Chalvin, eu hudgyrn ymosodol yn ei herbyn, nes chwalu haner ei chaerau yn y gorllewin; ac o hyny hyd yn awr y mae gafael y gwreiddiau drwg yn pydru, ac y mae dylanwad upasaidd ei changenau yn lleihau; a rhyw ddydd gwelir Rhufain anghristaidd yn cwympo, a'i heulunod a'i chreiriau yn cael eu taflu i'r wadd a'r ystlumod. Maddeued y darllenydd i ni am agor ein papur ar fywyd Pio Nono gydag ychydig o hanes amcan Pabyddiaeth, oblegyd gall ddeall yn well y cyfeiriadau a wneir ynddo, yn nglyn â'i weithredoedd i gadw i fyny ei eglwys ddrylliedig.

Yn ol rhestr hanesyddol y Pabyddion o'u holyniaeth apostolaidd, gwelwn mai yr Apostol Pedr a ryfygant osod yn gyntaf o'u Pabau. Pa un bynag a fu Pedr yn Rhufain ai peidio, yr hyn sydd amheus, neu pwy bynag a wisgodd yr urddas gyntaf, sicr ydyw hyn, fod pob math o gymeriadau wedi ei arddel, ac na fu o'r cyntaf hyd y diweddaf—sef gwrthddrych ein bywgraffiad—un o honynt wedi amcanu cymaint, ac yn mha un y cyfarfyddodd y fath amrywiaeth o gyferddoniau cyneddfol.

Nodweddid Pio Nono gan gyfrwysdra, hunanbarch, penderfyniad, llwfrdra, a rhyfyg, ac yr oedd yn berchen ewyllys a allai reoleiddio yr holl anianau cymysgryw hyn nes eu dwyn yn wasanaethgar iddo, a'u gwneyd yn esgynris ei uchelgais.

Hoffasem gael rhoddi brâs-linelliad bywgraffyddol o'r Pabau mwyaf nodedig a lanwodd Gadair Pedr hyd heddyw, ond gan ein bod yn bwriadu rhoddi rhestr gyflawn o'u henwau ar ddiwedd yr erthygl hon, ni wnawn ond cyfeirio y darllenydd at unrhyw wyddoniadur Seisnig, a chaiff ei wala o'u gweithredoedd wedi eu croniclo ynddynt.

## GRADDIAD GIOVANNI MARIA MASTAI FERRETTI.

Ganwyd gwrthddrych ein hanes ar y 13eg o Fai, 1792, yn mhentref Sinigaglia, yn agos i Ancona, yn yr Eidal, yn adeg teyrnasiad y Pab Pius VI., ac yr oedd felly pan y bu farw yn ei chweched flwydd a phedwar ugain. Ei enw mabaidd ydoedd Giovanni Maria Mastai Ferretti, a hanai o deulu Eidalaidd urddasol. Nis gellir dywedyd am dano fel y dywedwyd am Glyndwr, fod y nefoedd yn llawn o ffurfiau tanllyd a'r ddaear yn crynu at ei seiliau ar ei enedigaeth, ond gellir dyweyd iddo gynhyrfu nefoedd a daear yn eu fywyd; a'i fod wedi gadael argraff ar y byd na ddilëir mo hono am oesau; ac enw, â pha un y bydd llechres hanesiaeth Ewropaidd wedi ei britho. Nid oedd ynddo yn ei flynyddau boreuol adref ddim yn neillduol i greu dyddordeb na sylw; os nad oedd ei ddull caredig a haelionus, ynghyda'r cywreinrwydd hwnw sydd yn ofynol i enill cyfeillion, yn ei nodweddu.

Yn yr ysgol ni ddangosai allu uwchlaw'r cyffredin, ac os cymerwn adroddiad un o'i gydysgolheigion o berthynas iddo, dywed mai Ferretti ydoedd y dylaf o'r oll. Dywed cydysgolhaig arall am dano, mai efe ydoedd "y celwyddwr penaf yn yr ysgol," ac na arddangosai dalent o gwbl. Pa un bynag a oedd hyn yn wirionedd am dano yn ei fywyd boreuol ai peidio, gallwn ddyweyd na fu iddo ddangos yn y rhan olaf o'i fywyd y cywirdeb diffuant hwnw a weddasai i'w swydd. O berthynas i'w dalent, os nad oedd yn ddysglaer, yr oedd ei ymroddiad penderfynol wedi ei gwneyd yn allu meistrolgar ynddo, a dygodd y byd adnabyddus bron i gydnabod hyny.

Un diwrnod pan yn blentyn syrthiodd i gronfa o ddwfr gerllaw ei gartref, a boddasid ef oni bai fod crwydryn yn myned heibio, yr hwn a'i canfyddodd ac a'i hachubodd. Edrychid ar ei arbediad fel gweithred ragluniaethol, a dywedir nad anghofiodd ei achubydd wedi ei ddyrchafiad i'w orsedd. Rhaid i ni gyfaddef fod ei ymddygiad yn hyn o beth yn ganmoladwy ac yn deilwng o efelychiad, a gresyn nas gallesid dyweyd yr un gwirionedd am y cyfan o'i eiddo. Pan oddeutu deunaw oed yr oedd cymaint o atdyniad iddo yn ngwychder gwisgoedd corphlu y Pab Pius VI., fel y penderfynodd ymuno â hwy, a hwyliodd ei gamrau tua Rhufain i'r dyben o gario ei amcan i ben, a rhestrwyd ef yn un o honynt yn ddiwrthwynebiad. Ymhoffai mewn gwisgo a dangos ei hun, a dywed un bywgraffydd enwog am dano, mai *ffopyn* coegfalch ydoedd; "ei fod yn mynychu cwmni y milwyr, fod ei lygaid beunydd yn syllu ar eu haddurniadau milwrol. Ymroddodd i ddysgu trin arfau, marchogai lawer,



Digitized by Google

astudiai fiwsig, a chwareuai y fosbib a'r crwth yn ddeheuig; ei uchelgais y pryd hyn ydoedd bod yn filwr a threulio bywyd gwersyllol. Daeth yn gampwr mewn lliwio pibell ysmocio, gallai yfed potelaid o win ar ei dalcen, a threuliai lawer o'i amser yn chwareu *billiards* a *thennis*. Ymwisgai yn gyffredin mewn math o arddull rhwng milwr a gwirfoddolwr, ond eto yn hynod o foneddigaidd. Côb lwyd, gydag ar-ddyrnau duon a choler ddu, cap coch, llodrau gyda rhesau cyfochrog arnynt; coler ei grys yn debyg i un y bardd Oliver Goldsmith gynt, dros ei ysgwyddau, a chadach coch wedi ei rwymo yn debyg i chwarelwr, a'i ddeupen yn chwifio yn y gwynt, blodeuyn yn nhwll botwm ei gôt, a *cigar* yn ei safn;" a gorphena gyda dyweyd ei fod hyd yn nod yn ei hen ddyddiau yn methu ymgadw yn llwyr oddiwrth y demtasiwn o wneyd ei hunan yn amlwg drwy arddull ei wisg.

Meddai ar gorph lluniaidd, ac ysgogiadau boneddigaidd, yn nghyda phrydwedd dengar, ac fe allai, o ganlyniad, nad oedd i'w gondemnio gymaint am ei hoffder o addurniadau allanol.

Hoffid ef gan ei gydfilwyr am ei dynerwch, ond nid hir y bu cyn iddo ymadael â hwy. Tarawyd ef yn sydyn gan lesmeirglwyf, yr hwn a'i hanalluogodd i ddylyn ei alwedigaeth filwrol, ac wedi ei ryddhad, ac iddo wella i raddau, trôdd ei sylw at yr eglwys, a mynychodd ysgoldy crefyddol, lle, yn mhen ychydig o amser wedi iddo fyned drwy y graddau arferol, yr urddwyd ef yn offeiriad, ac anfonwyd ef i addysgu amddifaid tylodion Yspytty Tata Giovanni. Enillodd sêl ac yni Ferretti iddo air da a pharch gan bawb o'i gylch yn lled fuan, ac yr oedd yn dechreu creu yn mynwesau ei edmygwyr ddysgwyliadau mawr am dano yn y dyfodol, a dengys ei ddyrchafiad nad oedd eu dysgwyliadau yn ofer. Nid perchen athrylith bob amser sydd yn meddu ar allwedd freiniol gwybodaeth ac anrhydedd, ac nid y "dylaf yn yr ysgol" ar bob adeg ydyw yr isaf yn ngraddfa bywyd. Na, y mae yn dygwydd yn fynych fel arall; gwelir athrylith yn aml yn cardota, a'r un sydd yn perchen penderfyniad ac yni yn llywodraethu.

Dywed Hugh Miller, mewn rhagdraith i un o'i weithiau dyddorus, mai yr unig deilyngdod a hawliai efe iddo ei hunan ydoedd, ei fod yn meddu ar ymroddiad, ac y gallai yr hwn a feddiannai fwy nag ef o hono ei flaenori; ac hefyd, y gall gradd uchel o'r yspryd hwnw fod yn arweinydd i ddadblygiad o alluoedd tu hwnt i athrylith. Credwn ninau mai nid dysg eang nac athrylith ddysglaer a gyfododd y dyn ieuangc hwn i'r fath safle, ond ymroddiad llwyr a phenderfyniad diysgog i gwblhau yr hyn a amcanai.

Pan gyhoeddwyd gwerinlywodraeth Chili, yn neheubarth yr America, penodwyd Ferretti i fod yn Brawydd i M. Mugi, Ficer Apostolaidd y Weriniaeth, a danfonwyd ef ymaith i gymeryd mewn llaw ei waith newydd. Drwy ei ddyfalwch daeth i gynar ddeall dirgelion gwleidyddiaeth, ac ysgrifenodd ei olygiadau goleuedig ar byngciau cysylltiol â rheoleiddiad gwleidyddol y llywodraeth Babaidd, yr hyn a fu yn achos o ddwyn iddo fwy o anrhydedd a sylw nag a ddysgwyliasai oddiwrthynt. Yn ystod ei arosiad yn Chili bu newidiad yn y Babaeth drwy farwolaeth Pius VII.—coronydd ac esgymunydd Napoleon I.—a chyfodwyd Leo XII. i'w olynu.

Ar ddyrchafiad Leo i'r orsedd galwyd Ferretti adref, ac ar ei ddychweliad penodwyd ef ar unwaith i swydd bwysig fel esgob ar dŷ y Pab, yn nghyda rheolaeth Yspytty St. Michael, yr hon swydd a lanwodd yn anrhydeddus, ac er budd i'r rhai ieuaingc dan ei ofal.

Yr oedd amgylchiadau fel hyn yn ei wthio yn mlaen, ac erbyn hyn yr oedd yntau wedi gosod ei lygaid yn nghyfeiriad Cadair Sant Pedr, ac yn cyflym ymgyrhaedd ati. Treuliai ei fywyd yn dawel a llafurus i olwg ei gyd-ddynion, ond yr oedd ei yspryd uchelgeisiol yn dyheu am uwchafiaeth arnynt. Wedi marw Leo XII. a Pius yr VIII. ei olynydd, pan yn 37 oed cafodd ei ddyrchafu i archoffeiriadaeth Spoletto, ac wedi gwasanaethu yno dair blynedd derbyniodd archesgobaeth Imola yn Romagna, lle y bu yn gweinyddu am rai blynyddau. Tra yma derbyniodd y cymeriad uchaf am ei haelioni a'i garedigrwydd, ac enillodd drwy hyny lywodraeth eang ar galonau ei braidd, yr hyn a fu iddo yn fantais fawr yn y dyfodol.

Yr oedd ei ddyrchafiad yn gyflym ac yn sefydlog, ac yn y flwyddyn 1840 cawn ef yn derbyn yr urdd o Gardinal, dan y teitl St. Pedr a Sant Marcellinus. Ychydig o'r teimlad a'i nodweddai y rhan olaf o'i fywyd a ddangoswyd ganddo hyd yn hyn. Ymddengys mai ei brif amcan bron ydoedd ymgeisio at wneyd argraff ddymunol ar bawb a'i cylchynai, hyd nes y meddiannai y llawryf, ac y mae coroniad ei lafur yn profi fod cyfrwysder dan rith haelioni a charedigrwydd wedi palmantu y ffordd i'r bachgen Ferretti hyd at risiau gorsedd Rhufain.

Digitized by Google

Dringodd i'r orsedd fel Pab neu Ficer Crist ar ei etholiad yr 16eg o Fehefin, 1846; ac o'r adeg hono hyd ei farwolaeth, ymddengys i olwg y byd mewn ffurfafen uwch, mewn cylch eangach, ac o dan amgylchiadau sydd yn ei gysylltu yn uniongyrchol gyda phenau coronog y ddaear, a chyda phrif ddygwyddiadau gwleidyddol a chrefyddol y byd adnabyddus. Ei deitlau oeddynt: Esgob Rhufain, Ficer Iesu Grist, Olynydd y penaf o'r Apostolion, Prif ddeddfroddwr yr Eglwys Gyffredinol, Patriarch y Gorllewin, Prif swyddog yr Eidal, Dinesydd talaeth Rhufain, Penadur tymhorol holl diriogaethau yr Eglwys Rufeinig Sanctaidd; ynghyda llu o deitlau ereill mor amheus ac mor gyrhaeddfawr a'r uchod, y rhai nad ydyw Cristionogaeth, na'r galluoedd tymhorol—ac eithrio un neu ddau—yn eu derbyn na'u goddef.

## PABAETH PIO NONO.

Wedi ei esgyniad i'r Babaeth bu mawr ddysgwyliad wrtho ac ymddiried ynddo y dangosai ei yspryd rhyddfrydol yn fwy amlwg, ac yr effeithiai fwy o ddaioni yn ei gylch dylanwadol newydd; ond er na chwbl siomwyd hwy yn hyn, eto ni bu o hir barhad, fel y profir yn mhellach. Pan gafodd Pio Nono y llywodraeth i'w ddwylaw, canfu ar unwaith fod cyllid y *deyrnas dragywyddol* wedi bod mewn dwylaw ofer, fod materion mewnol yr Eglwys fel gwê ddyrysedig, yn llawn annhrefn. Yr oedd swyddogaethau yn y Wladwriaeth a'r Eglwys i'w cael i'r uchaf ei bris, ac yr oedd pob rhan o honynt yn bwdr diwerth, oherwydd anallu y rhai mewn awdurdod, a llwgrwobrwyaeth. Yr oedd miloedd o oreuon ei deyrnas yn garcharwyr, a chyfanfrif ei ddeiliaid yn gwingo dan ormes crairdrethi a marweidd-dra trafnidiaeth. Dechreuodd teyrnasiad Pio drwy iddo ryddhau y caethion, glanhau y llywodraeth oddiwrth lwgrwobrwyaeth, a chaniatâu i'w ddeiliaid Iuddewig ffafrau annysgwyliedig. Dygodd drefn ar gyllid y wlad drwy sefydlu undeb cyllidol rhwng y gwahanol daleithiau, ynghyda diwygiadau eang yn y gwahanol ganghenau swyddogol, fel y tybiodd yr Eidaliaid a'r Rhufeiniaid fod gwawr goleuni rhyddid o'r diwedd wedi tori, ac yn prysur wasgar caddug caethiwed o'u gororau.

Bywiogodd masnach, cynyddodd gwybodaeth, a diflanodd i raddau effaith y llyffetheiriau a fu yn bwyta eu cnawd ac yn eu gorthrymu.

Ni pharhaodd rhyddid ond ychydig dros flwyddyn i daenu ei bendithion yn yr Eidal cyn i rwystr godi, a fu yn foddion i gadw ei lanw am flynyddau ar draeth amheuaeth ac ofn.

Cododd ymrafael rhwng Brenin Sardinia ac Ymerawdwr Awstria, hen noddwr y Babaeth, a chyhoeddwyd rhyfel rhyngddynt. Ar gais y Rhufeiniaid, gwrthododd Pio ymuno â'r Sardiniaid yn erbyn Awstria, yr hyn a barodd newidiad yn y weinyddiaeth, a dewiswyd Cardinal Antonelli yn brifweinidog, fel y cynorthwyai y Pab i rwyfo ei lestr wladol rhwng y creigiau politicaidd cylchynol. Creodd ei wrthodiad deimlad creulon a ffyrnig yn ei erbyn yn mynwesau ei ddeiliaid, ac uchel waeddent am hunanlywodraeth. Pe na buasai i'w lwfrdra ei orchfygu yn y cyfwng hwn, efallai na chawsem y fraint o weled rhwyg mor enfawr yn y deyrnas Babaidd, ond

"Meddwl dyn, Duw a'i terfyn."

Yr oedd yr adeg wedi gwawrio i Dduw yn ei lid drywanu Pabyddiaeth yn un o'i manau tyneraf, ac y mae'r brathiad mor amlwg, ac yn ei gymeriad mor farwol, fel nas gall ffug anffaeledigrwydd yr holl babau sydd i olynu byth ei wella. Gweithia gwenwyn y llid drwy eu holl wythenau, a cheir gweled y nerth yr ymffrostiant ynddo yn llesmeirio ac yn diffrwytho dan ei effaith, a gwelir ein Harglwydd ni a'i Grist Ef yn teyrnasu, ac ar ei deyrnas ni bydd trangc.

Teimlodd yr Eidaliaid a'r Rhufeiniaid yn yr adeg byr o flwyddyn felusder rhyddid, ac yr oedd yr ysgafndra bywiol a'i meddiannent, wedi iddynt golli hualau caethiwed, mor hyfryd yn ei ganlyniadau fel y penderfynasant roddi eu galluoedd mewn gweithrediad i'w gadw. Pan etholwyd Count neu Iarl Rossi, un o dyraniaid y wlad, yn Weinidog Barnol, codasant mewn gwrthryfel, a bloeddiasant am iawnder, a llais gwlad yn newisiad swyddogion; galwasant ar eu tad, y Pab, i'w hamddiffyn a'u cefnogi, ond nid oedd yspryd ynddo i'w cynorthwyo, na digon o ddewrder i'w gwrthwynebu. Pan welsant hyn, rhuthrasant ar Rossi, a llofruddiasant ef yn ystafell y Dirprwywyr yn Rhufain. Casglodd fflam gwrthryfel nerth, a daeth sefyllfa y Pab ei hunan yn beryglus. Amgylchynwyd ei balas gan y gwrthryfelwyr, a hawlient ganddo gyflawniad o'i addunedau iddynt, ond trôdd glust fyddar atynt, a'r canlyniad fu, rhuthrasant ar y palas, ac yn y cythrwfl saethwyd un o'i Gardinaliaid, a dygwyd

Digitized by Google

yntau i reswm drwy rym arfau. Ar yr 20fed o Dachwedd, 1848, cyhoeddwyd ffurflywodraeth gyfansoddol, a charcharwyd Pio Nono yn ei balas.

Yn garcharor! Syndod, onidê! fod un mor alluog wedi cael darostyngiad. Un fu unwaith yn gorchymyn byddinoedd i'w gymhorth yn analluog i reoli cynddaredd ei gydgenedl. Cynrychiolydd awdurdod fu ar un adeg yn hawlio ei ddegfed o gynyrch Prydeinig, ac heddyw yn amddifad bron o angenrheidiau bywyd. Un a raddiwyd yn gyfochrog drwy freintebau seneddol â'n Brenines, ond yn awr wedi ei ddifrïo gan ei blant ei hun.

### EI FFOADIGAETH I GAETA.

Rhyw dridiau wedi y carchariad cafodd y Pab gyfle i ddiangc, a ffôdd o'r ddinas dragywyddol i dref Napolaidd a elwir Gaeta, ac anfonodd y Ffrangcod lu o filwyr yno i'w amddiffyn. Yn ystod ei arosiad yno ysgrifenodd *ddeddfiad* at y Llywodraeth newydd, yn yr hon y condemniai fel yn ddieffaith bob gweithred o'i heiddo, gan orchymyn sefydlu math o brwyadaeth wladol i reoleiddio y deyrnas. Chwarddodd y rhai mewn gallu am ben y fath gynygiad, ac yn y cyfamser cyfnerthasant eu llywodraeth drwy weithredu yn annibynol arno. Yn fuan wedi derbyniad y cylchddeddfiad uchod, cyhoeddasant Werinlywodraeth, a difeddiannasant y Pab o'i allu tymhorol. Ffromodd yn gymaint wrth hyn, fel y trôdd at y gallu Ffrangcaidd am gymhorth arfau i'w ailorseddu; ac wedi brwydro caled ac amddiffyniad dewrfryd gan y Weriniaeth o dan Garibaldi, gorfuwyd hwy gan y fyddin Ffrangcaidd, ac enillwyd iddo yr ail waith agoriadau pyrth Rhufain. Bu am oddeutu deunaw mis cyn dychwelyd i'w wlad i ailgydio yn awenau y llywodraeth, a gweinyddai ereill o dan ei gyfarwyddyd yn ei absenoldeb. Ar flaenau bidogau estronol y cynelid ei orsedd, ac nid rhyfedd iddo ofni dyfod adref nes i deimladau ei ddeiliaid bylu o dan eu gorthrwm haiarnaidd. Nis gwyddom, yn y rhan dywyll yma o'i fywyd, beth a'i cymhellodd i weithredu fel y gwnaeth, os nad yr un ffawd anwyrthwynebol ag sydd yn dylyn y Babaeth yn ddiorphwys i'w dinystrio. Sicr ydyw iddo yn ei ebychiadau diweddaraf gyflawni yr hyn na ddaeth i feddwl, ac na feiddiasai yr un o'i flaenorwyr ymgynyg arno. Yr oedd ei allu tymhorol ar fachlud, a'i ddylanwad crefyddol yn prysur farweiddio; ymrafaelion a rhwygiadau mynych yn yr Eglwys, a gwelai, os ydoedd i barhau yn ei rwysg, fod yn rhaid troi allan o'r ffordd gyffredin i gadw dyddordeb ynddo ei hun a'i Eglwys. Cynlluniodd, a gweithredodd mewn canlyniad i hyny.

### PENODI CARDINALIAID NEWYDD I BRYDAIN.

Ar y 30ain o Fai, 1850, mewn Eglwyslys yn Rhufain, pennodwyd ganddo bedwar ar ddeg o gardinaliaid newyddion, i wylio, rheoli, ac amddiffyn egwyddorion Pabaidd yn Mhrydain. Rhanodd ein gwlad yn esgobaethau, *heb falio mewn cenad na chwyn*, ac urddodd esgob i bob talaeth. Tynodd y rhyfyg awdurdodol hwn arno ŵg ein cenedl, a chynaliwyd cyfarfodydd gwrthdystiol drwy yr holl deyrnas, a dywedir fod y frenines o'r cyfarfodydd hyny wedi derbyn yn agos i 7,000 o ddeisebau arwyddedig yn apelio at ei mawrhydi am "ddeddf wrthebol" i rwystro unrhyw allu a feiddiai sarhau ein terfynau drwy honi awdurdod ynddynt. Mewn canlyniad i'r cynhyrfiadau uchod gwnaed y "Ddeddf i reoli Teitlau Eglwysig," yn yr hon y gwaherddid—dan ddirwy o £100—urddiadau esgobawl ar dalaethau dychymygol; ond ychydig o sylw a dalodd y Pab i'r gwaharddiad na'r cynhwrf yn ei gylch, a sefydlodd ei weision yn ol ei gynllun. Ofnodd Lord Russell a'i ddylynwyr roddi y ddeddf mewn grym yn erbyn y fath allu; ac yn mhen ychydig flynyddoedd, sef yn Mai 1871, dirymwyd hi yn llwyr, a chafodd y Pab y pleser o weled buddugoliaeth gyflawn arnom yn dymhorol; yn ynghyda gwreiddiad eang a llwyddiannus ar ei gyfeiliornadau eulunaddolgar a llygredig. Gweithred beryglus i ni, fel cenedl wrthbabyddol, ydoedd plygu i fympwy y Bwystfil Rhufeinig yn hyn o beth, a gadael iddo ymnaturioli yn ein mysg heb gwtogi ei gyrn na'i ewinedd; a chanfyddwn heddyw ein bod yn euog o groesawu un sydd yn troi allan gyda'r fath gyfrwysder a gallu, i ddifa ein coedwigoedd crefyddol, fel y mae yn llawn bryd gwneyd un ymdrech nerthol, a chydegnïol, i aneffeithioli ei ddylanwad ac i'w alltudio o'n gwlad a'n terfynau. Ond at yr hanes:—Fel y cryfhai yr anghen am fwy o newydd-deb i wneyd y grefydd babaidd yn gymeradwy, i'r un gradd y gwywai ei nerth tymhorol, ac nid yn hir wedi tynu Lloegr yn ei phen y bu i'r Pab wneyd aii ymgais drosto ei hun yn nghyhoeddiad y

### CENEDLIAD DIHALOG.

Mor foreu a'r flwyddyn 1380, cawn fod gwyl wedi ei sefydlu er coffhau cenedliad dihalog Mair Forwyn, ond gadawyd yr anrhydedd (?) o gyhoeddi hyny fel un o er-

thyglau ffydd i Pio Nono: edrychid arno gynt fel pwngc heb ei gwbl benderfynu, ac yr oedd amryw o brif ddynion yr Eglwys yn ymwrthod â'r athrawiaeth, ac ereill yn rhoddi iddi fath o gydsyniad hanerog, hyd nes cyhoeddodd Paul V. fod amheuaeth o honi neu wrthwynebiad iddi yn sicr o greu anghydfod, ac y dylid ei derbyn. Ni thalai y teimlad hwn i Pio Nono, mynai ef Ie neu nage o berthynas i'r pwngc, ac wedi celgymanfa, yn mha un y cafodd gydsyniad ei Gardinaliaid, ar yr 8fed dydd o Dachwedd, 1854, y dydd gwyl pennodedig—tynodd allan bab-archiad, yn yr hwn yr hysbysai fod y Cenedliad Dihalog i gael ei dderbyn fel erthygl ffydd o dan boen esgymundod, a chondemniad fel hereticiaid, a chyfodwyd yn y fan gofadail ardderchog i ddathlu i'r oesau ddydd genedigaeth y penderfyniad athrawiaethol digymhar hwn. Yn fuan wedi hyn cymerodd ddull arall i ddallu cydwybodau dynion, ac i'w dwyn o dan ei iau haiarnaidd, a'i ewyllys orfeisiol. Yn Awst, 1855, ffurfiwyd cytundeb rhwng Awstria a Rhufain, yn mha un yr oedd rhyddid yr Eglwys yno yn cael ei gyfyngu, a lluaws o'i breintiau yn cael eu cymeryd oddiarni. Condemniwyd ymddygiad y Pab yn hyn gan bob un o'r llywodraethau ereill, ac eithrio yr Yspaen; ac wedi canfod o Awstria y teimlad, anfoddlonodd hithau yn fawr. Parhaodd y cytundeb mewn grym hyd 1868, pan y dirymwyd ef gan Senedd y wlad, a thaflasant ran o'r iau pabaidd ymaith yr un adeg. Ffromodd y Pab yn fawr wrth y weithred, a chondemniodd hi; ond yr oedd gwleidyddwyr Awstria yn dechreu teimlo y gallent wneyd yn well heb ei gadwynau tymhorol ac ysprydol; a phrofwyd hyny drwy gynydd yn mhob ran o'r ymerodraeth. Dangos ei allu anffaeledig ydoedd amcan y ddwy ddyfais a grybwyllasom, a buont yn foddion, mae'n debyg, i gadw anrhydedd y babaeth i fyny os nad hefyd i dyogelu y goron am amser. Gwnaeth y Pab un symudiad, tua'r flwyddyn 1857, i ddwyn ynghyd ei ddeiliaid tymhorol, a chymerodd daith drwy ei diriogaethau i'r perwyl hwnw; ond yr oedd gwaed yr Eidal yn berwi gyda'r dymuniad a'r awydd o sylweddoli Unoliaeth Eidalaidd, fel mai croesaw oeraidd a dderbyniodd yn ei ymweliadau, ac ymddengys fod ei ymgais i enill eu calonau wedi troi yn fethiant. Gwelai y galluoedd cylchynol yn ei adael, a'u bod yn dechreu cydnabod y dylasai yr Eidal fod yn un prif-allu yn eu mysg, yn lle bod yn dalaethau ac yn rhaniadau bychain; ac yr oedd amgylchiadau yn crynhoi o'i gylch mor gyflym fel mai prin y gallai beidio canfod y diwedd yn neshau. Yn 1859 torodd rhyfel allan rhwng Brenin Sardinia ac Awstria, a chynorthwywyd Victor Emmanuel gan Ymerawdwr Ffraingc (asgwrn cefn y Pab,) a'r canlyniad fu i Lombardy gael ei rhoddi iddo, ac yn fuan drwy wrthryfel dylynodd Naples, Tuscany, Parma a Modena, a daeth Victor Emmanuel yn frenin ar yr holl Eidal bron. Dechreuodd y Pab erfyn y pryd hyn ar alluoedd Ewrop i'w gynorthwyo yn erbyn brenin Sardinia, tra yr oedd Garibaldi ar y llaw arall, yn cynhyrfu yr Eidaliaid i wrthryfel. Ni chymerwyd sylw o erfyniadau y Pab gan y galluoedd hyny, ac oni buasai fod Ffraingc yn amddiffyn Rhufain a Civita Vecchia, buasai ei allu tymhorol wedi ei gwtogi ar yr adeg yma.

## YN GWRTHOD CYDNABOD VICTOR EMMANUEL.

Cyhoeddwyd Victor Emmanuel yn frenin yr Eidal, ac anfonwyd at ei Sancteiddrwydd i'w gadarnhau; ond gwrthododd. Pa un bynag, cydnabyddwyd ef gan y galluoedd ereill, a gweithredodd yn annibynol arno. Bygythiai a ffromai yntau, ac o'r diwedd condemniodd y brenin i esgymundod. Yn y flwyddyn 1862, cynhyrfwyd yspryd Garibaldi i ail ymddangos ar y maes; ac er gwaethaf rhybudd Victor Emmanuel, a'i wrthwynebiad iddo i godi gwrthryfel, cawn iddo godi byddin o wirfoddolwyr, a hwylio tua Rhufain i'w rhyddhau; a'i arwyddair ydoedd "Rhufain neu farwolaeth." Ond yn anffodus iddo, cyfarfuwyd ef gan y byddinoedd breninol, a chymerwyd ef yn garcharor, cyn iddo effeithio ei amcan. Wedi ychydig o garchariad, derbyniodd ei ryddid yn ddiamodol; ac y mae yn debyg fod Garibaldi a'r llywodraeth freninol i raddau yn deall eu gilydd ar y pryd; ac mai sicrhau Rhufain yn brifddinas drwy rhyw foddion ydoedd yr hyn mewn golwg. Tua diwedd yr un flwyddyn, dychrynwyd ef yn ddirfawr oherwydd cyhoeddiad wedi ei law-nodi gan y Tad Passaglia, a'i arwyddo gan oddeutu deng mil o offeiriaid Eidalaidd, yn yr hwn y gwrthodent gydnabod ei allu tymhorol; ac achosodd hyn ddiwygiad pwysicach yn y flwyddyn 1864, pan arwyddwyd gan Ffraingc a'r Eidal gytundeb cydweithredol. Addawodd yr Eidaliaid, ar eu rhan hwy, beidio a chyffwrdd—na gadael i arall wneyd—â'r Pab na'i ddinas, ac y cymerent ef dan eu nawdd, gan gyfranu at ddyled y talaethau Pabaidd. Amododd y Ffrangcod, ar eu rhan hwythau, alw adref y fyddin a amddiffynai y Ddinas Sanctaidd yn mhen dwy flynedd. Ni foddhai y telerau uchod y Tad Passaglia na'r offeiriaid a'i cynorthwyent ef, nac ychwaith

Digitized by Google

deyrngarwyr y wlad a fynent ryddhau; ac ni feiddiai y freniniaeth ymgymeryd i gario eu cynllun allan drwy rym arfau, oherwydd fod cyllid y deyrnas yn annigonol i'w cyflenwi â'r nwyddau anghenrheidiol i hyny; ac o ganlyniad cadwyd y Pab am beth amser wedi hyn yn siglo ar ei orsedd ddreiniog.

### YN COLLFARNU Y MASONIAID.—GARIBALDI.

Nid rhyfedd i'w anesmwythyd yn y rhan yma o'i fywyd achosi iddo daflu ei lysnafedd a'i gabldraith ar bob ffurf o addoliad, a phyngciau athronyddol, ynghyd a chondemniad diamwys o Gyfrinfa y *Masoniaid*,—aelod o'r hon gymdeithas ydoedd yntau—oblegyd gwelai fod ei gydgenedl yn penderfynu meddwl drostynt eu hunain; fod yr Awstriaid yn troi oddiwrtho, a'r Allmaen yn ferw drwyddi am ddiwygiadau; fod Ffraingc ar ben tynu ymaith ei nawdd, ac fod ei goron deir-plyg yntau ar gael ei rhoddi ar ben un o'i ddeiliaid esgymunedig. Er amddiffyn ei hun rhag y canlyniadau uchod, ceisiodd logi llu o Ffrangcod erbyn adeg cymeriad ymaith y milwyr Ffrengaidd rheolaidd a gedwid yn Rhufain gan yr ymerawdwr, ond drwy ystyfnigrwydd milwrol Garibaldi, yr hwn oedd eto ar y maes, cadwyd y milwyr cyntaf yno am amser hwy na'r cytundeb gyda Victor Emmanuel, a thrwy gydweithrediad y milwyr Pabaidd, gorthrechwyd y gwrol a'r teyrngar Garibaldi y drydedd waith cyn sicrhau ei amcan. Bendithiwyd arfau y Ffrangcod llwyddiannus gan y Pab, a chynyddwyd y fyddin amddiffynol i ddwbl y nifer; eto nid oedd llonyddwch iddo.

Wedi ei amgau gan fidogau milwyr estronol, wedi troi ffroenau ei fagnelau at ei bobl, wedi tynu llaw fendithiol dros blu eryr Ffraingc, tybiodd fod ychydig o heddwch ar wawrio; ond o'r tu cefn iddo gwelwn law tynged yn ei wthio, a'i bys yn ei gyfeirio at ei un weithred fawr; at yr hyn yr oedd ei uchelgais wedi osod iddo fel ei nôd, ac at y maen ar yr hwn yr ymdorai.

Prif wrthddrych ei fywyd ydoedd cyflawni yr hyn nad amcanodd arall; ac os bu gwiriad erioed i'r ddiareb, "Yr hwn a fŷn a orfydd," gwiriwyd hi yn mywyd Pio Nono. Dymunem awgrymu wrth fyned heibio, yn enwedig i'n darllenwyr ieuaingc, fod yr egwyddor hon, er yn llywodraethol ynddo, ac yn ngwyneb ei ryfyg a'i gyfeiliornadau, yn un y dylai pawb fod yn feddiannol arni, sydd a thuedd ynddo i edrych yn mlaen at fodoliant defnyddiol. Fe allai na ddangosodd y Pab fwy o benderfyniad yn ei oes na'r adeg y synodd y byd Cristionogol gyda'i gylchythyr enwog yn Medi 1868, pan wysiodd ynghyd i Rufain Gynghor Cyffredinol, yn gynwysedig o batriarchiaid, esgobion, a blaenoriaid eglwysi heblaw a berthynai i'w eiddo ei hun, gyda'r amcan o'u dwyn i uno mewn cyhoeddiad arbenig o'i anffaeledigrwydd. Gwrthododd Patriarch yr Eglwys Roegaidd ymuno âg ef, na rhoddi ei bresenoldeb yno. Dylynwyd ef gan luoedd ereill, ond er hyny ni bu y cyfartaledd o bresenolion, tra yn ymdrin â'r pwngc, yn llai na 740—mewn ffaith, dygwyd i'r ddinas sanctaidd drwy y cylchlythyr, 6 o dywysogion archesgobol, 50 o gardinaliaid, 10 o batriarchiaid, yn agos i 700 o archesgobion ac esgobion, a thua 60 o abbadau a blaenorion urddonau. Yr oedd canfod y fath nifer o fawrion eglwysig, hyd yn nod i ddadleu yr athrawiaeth, yn falm pereiddiol i deimladau y Pab; ac nid oes amheuaeth nad ydoedd y gefnogaeth a dderbyniodd ganddynt yn gwneyd i fyny i raddau am gywilydd ei alltudiaeth, a phoen colled ei allu tymhorol.

Ni dderbyniod gadarnhadd uniongyrchol i'w ddymuniad; ac ar un pryd edrychai braidd yn dywyll oblegyd y gwrthwynebiad ystyfnig a roddai rhai iddo, ond llwyddodd i enill y Jesuitiaid o'i blaid, a chafodd, drwy eu cynorthwy, fwyafrif mawr; ac ar y 18fed o Orphenaf, 1869, penderfynwyd gan y Cynghor ar y ffurf ganlynol o hysbysiad, yn cynwys corphoriad o'u dysbwylliant ar yr athrawiaeth newydd o

### ANFFAELEDIGRWYDD:

"Yr ydym ni, sydd yn cadarn ymlynu wrth y traddodiad a drosglwyddwyd i ni er dechreuad y Grefydd Gristionogol, er gogoniant Duw ein Iachawdwr, er dyrchafiad y grefydd hono, ac er Iachawdwriaeth Cristionogion, gydag arddeliad y Cynghor Cysegredig, yn dysgu yr Athrawiaeth fel ei datguddiwyd gan Dduw—Fod Pab Rhufain, pan yn llefaru yn swyddogol; hyny yw, pan yn nghyflawniad o'i ddyledswyddau bugeiliol, fel dysgawdwr yr holl Gristionogion; trwy rinwedd aruchel ei awdurdod apostolaidd, yn egluro yr athrawiaeth o berthynas i ffydd neu foesau sydd yn perthynu i'r Eglwys gyffredinol, ei fod, drwy gynorthwy Dwyfol, addawedig iddo yn yr Apostol Pedr, yn perchen Anffaeledigrwydd, gyda pha un yr ewyllysiodd ein Iachawdwr Dwyfol ddonio ei eglwys pan yn egluro ffydd a moesau; ac o ganlyniad fod egluriadau y Pab Rhufeinaidd ynddynt eu hunain, ac heb gydsyniad yr Eglwys, yn

Digitized by Google

anghyfnewidiol. Os meiddia neb—na ato Duw ei fod—wrthwynebu ein gosodiadau, bydded Anathema."

Dyna ris uchaf ei uchelgais; dyna *glimax* ei ryfyg; a pha beth bynag a ddysgwyliodd oddiwrthynt er lles ei grefydd neu ychwanegiad i'w hunan-ogoniant, neu pa beth bynag a fwynhaodd drwy eu cyflawniad, gallwn ddyweyd, mai ychydig o amser wedi hyny, yn Medi 1870, oddeutu mis wedi i'w haerllugrwydd ddyfod yn ffaith, wedi iddo afael yn ngwisg yr Archoffeiriad Mawr, a honi ei deyrnwialen, gwelodd ar unwaith "Na oddef nef ormod." Tynwyd ymaith y milwyr Ffrengig—nid oedd eu hangen i amddiffyn anffaeledigrwydd—a marchogodd milwyr Victor Emmanuel yn fuddugoliaethus dros gaerau drylliedig y Ddinas Dragywyddol, a derbyniwyd y fyddin gyda banllefau o "ryddid" ac "i lawr gyda Thyraniaeth."

Protestiodd y Pab, wrth gwrs, yn erbyn yr awdurdod, ond cymerwyd pleidlais cyffredinol o berthynas i uniad Rhufain gyda'r Eidal o dan un brenin, a'r canlyniad fu, fod allan o 167,548 o bleidleisiau, 133,681 wedi eu rhoddi dros yr uniad.

### YN GWRTHOD BLWYDD-DAL.—YN BYW FEL CARCHAROR YN Y VATICAN.

Cynygiwyd wedi hyn fod i'r Pab dderbyn oddiwrth y llywodraeth mewn gallu, fath o flwydd-dal tuagat gynal ei urddas, ond gwrthododd, a thybiodd ei bod yn fwy anrhydedd derbyn rhoddion a chardodau gan ei ddeiliaid ffyddlon na bod yn rhwymedig wrth ewyllys da yr Eidaliad a lawenychasai yn ei ddarostyngiad. Gwrthododd yn llwyr, a'i gynghorwyr hefyd, gydnabod unrhyw allu arall: ac ymddengys oddiwrth ei ewyllys—er iddo dynu yn ol esgymundod Victor Emmanuel pan ar ei wely angeu—ei fod wedi gadael y felldith esgymunol ar ei fab Humbert ar ei esgyniad i'r orsedd yn lle ei dad. Wedi cymeriad Rhufain gan Victor Emmanuel, ymneillduodd y Pab o'i fodd i'w balas, y Vatican, a galwai ei hun yn garcharor a merthyr; ac yn ystod ei garchariad y terfynodd ei 25ain mlwydd o'i Babaeth. Gwnaeth lawer o bethau rhyfedd a herfeiddiol tra yn ei neillduedd, ac yn eu mysg, gorchymynodd Jubili ar derfyniad ei 25ain o'r Babaeth, a derbyniodd longyfarchiadau gan yr holl benau coronog cylchynol. Anfonodd hefyd lythyr at Ymerawdwr yr Allmaen, yn yr hwn y cwynai fod y Pabyddion yn ei deyrnas yn cael eu hymlid a'u gorthrymu, a'i fod ef yn hawlio rheolaeth arnynt, ac yn gorchymyn ufudd-dod i'w allu ysprydol gan bob un bedyddiedig. Atebodd yr Ymerawdwr ef drwy ddyweyd ei fod ef yn berffaith alluog i wylio ei deyrnas a'i threfniadau, ac nas gallai weled fod a wnelai y Pab â neb yn ysprydol, am nad oedd ond un "Cyfryngwr rhwng Duw a dynion, y dyn Crist Iesu." Cofia pawb am ffrewyll y Tywysog Bismark wedi hyny ar Jesuitiaid yr Allmaen, yr hyn a brawf fod ymyraeth amhrydlon yr Anffaeledig wedi effeithio yn groes i'w ddysgwyliadau ymhongar.

### EI AFIECHYD.

Cadwodd ei enw ger bron y wlad o bryd i bryd, drwy ryw ffolineb newydd o'i eiddo; ac hyd ddydd ei farwolaeth ni pheidiodd ag amlygu mai hunanawdurdod, hunanogoniant a hunanaddoliant, yn enw lles a dyrchafiad ei Eglwys, ydoedd prif amcan a phrif ddybenion ei holl weithredoedd amryfal. Ust!—dyma newydd prudd i Babyddiaeth yn cael ei daenu drwy'r gwledydd,—"Mae Pio Nono yn wael, a gobaith am ei adferiad ond bychan." Brithwyd papurau y teyrnasoedd â'r newydd yn ddyddiol; dadleuwyd y canlyniadau yn mhob cymdeithas, manwl ddyfalwyd pwy fyddai ei olynydd yn mysg penau coronog y ddaear; ond tra yr anadlai, ac hyd nes cyfarfyddai y celgynghor, nid oedd damcanion y naill na'r llall yn deilwng o ymddiried, ac nis gallasai yr hwn oedd ar ei wely angeu ddatod sêl y dyfodol, er ei fod ar drothwy y datguddedigaethau tragwyddol.

Pellebryn—Rhufain, Dydd Iau, 7fed o Chwefror, 1878. At y byd gwareiddiedig—Am haner awr wedi pump,

### BU FARW Y PAB PIUS IX.

Fflachiwyd y newydd i bob rhan o'r byd; derbyniwyd ef gyda theimladau gwahanol, a gwneid cyfalaf o hono yn ol y gwerth a roddid ar y dygwyddiad, a'i effaith ar wleidyddiaeth, moesoldeb a chrefydd ddatguddiedig. Gan rai bydd ei farwolaeth yn symudiad o'r *Hen ddyn*, ac yn gyflawniad llythyrenol o ddarostyngiad bwystfil Ioan y Difinydd. Ereill a'i hadgoffant gyda dagrau, oblegyd colli o honynt eu Tad a'u nawdd ysprydol. Fe allai y bydd rhai hefyd yn ymsythu ac yn ymddeffro i ryddid, wedi bod o dan gaethiwed hunllef oes; ond un peth a allwn sicrhau, y bydd ei olynydd yn falch o'r urddas a feddianna ar ei ddyrchafiad i lenwi ei le. Bu farw! yr

Digitized by Google

hwn y crynai breninoedd o'i flaen, ac y cusanai mawrion y ddaear ei draed; gair yr hwn a siglai deyrnasoedd, ac wrth wefus yr hwn—yn ol ei hunandyb—yr hongiai tynged yr holl deulu dynol. Hawliai hwn, yn rhinwedd ei swydd, y fath lywodraeth dros y byd crefyddol a gwleidyddol fel mai anhawdd ydyw credu fod y fath haerllugrwydd yn cael ei oddef. Dyn wedi ei greu ar lun a delw Duw, fel dyn arall, yn rhyfygu tynu ei Grewr o'i orsedd; yn meiddio arddel ei deitlau, a dwyn rhan o'i briodoleddau, ac yn hòni yn ddigywilydd iddo ei hun dadoliaeth dros bawb. Bu adeg pan nad oedd iddo ond ewyllysio, a chynhyrfid cenedl yn erbyn cenedl, y coronai freninoedd ac y diorseddai hwynt. Credid unwaith—ac ysywaeth eto—fod ei goron driphlyg yn arwydd o'r terfynol, y presenol, a'r dyfodol, ac nad oedd terfyn i'w uwchreolaeth.

Nis gallwn beidio a gofyn wrth fyned heibio, pa ryfedd fod y fath ddynion yn hòni iddynt eu hunain gymaint o bethau, pan y meddyliom am y miliynau sydd yn cynal i fyny eu honiadau; pan edrychom yn ol ar yr ofergoeledd a ordöai y byd, a phan gofiwn am y galluoedd mawrion a'u meithrinent ac a'u hamddiffynent. Dysgwyd y werin a'r mawrion am ganrifoedd nad oedd a fynent hwy â'u bywyd ysprydol, ac nad oedd ond yr Eglwys i ofalu am dano drostynt; a chan mai tuedd naturiol dyn ydyw taflu ei faich ar arall, yr oedd yr athrawiaeth hon yn swynol a melus i deimlad y diog a'r esgeulus, ac yn gryfder a maeth i hud ac ofergoeledd. Gwnaed trysorau i'w dysgyblion o'u creiriau sanctaidd, (?) a daeth hyny yn allu pennodol i'r Eglwys, ac ofnwn os na ddaw rhyw allu symudol goruwchnaturiol y cymer oesau eto i'w dileu. Yn ngwyneb y cyfan yr ydym yn credu fod olion dadfeiliad ar yr hen Rufain a'r Rhufain newydd—Mahometaniaeth a Phabyddiaeth; a pha faint bynag o naws bywyd sydd ynddynt, cawn weled y dydd y bydd baner rhyddid crefyddol yn chwyfio ar gaerau Caer Cystenyn a'r Ddinas Dragywyddol— y bydd hysbysleni "Trugaredd i'r euog," ar furiau China; y bydd Pyramidiau yr Aipht yn dathlu enw y Gwaredwr—

"Ac hefyd y byd cyfan—a fyn hi
Yn glau goroni, ac ail greu anian!"

Wrth derfynu dymunem awgrymu fod a wnelo Cristionogaeth â marwolaeth yr Archdwyllwr Pabyddol, ac y dylai pob gweinidog sydd yn pregethu Crist fel yr unig Gyfryngwr gymeryd mantais o'r achlysur, i ddadorchuddio yr hen eulun goreuredig; a'i ddwyn i lygad haul Protestaniaeth, a than wlith treiddiol symledd yr Efengyl; ac yn fuan gwelwn ei wisg fenthyg yn dirisglo yn dalpiau oddiarno. Diosger y grefydd Babaidd o'i chreiriau, a'i seremoniau; o'i seintiau ac o'i ffug-anffaeledigrwydd; ac ymddengys yn ei hagrwydd yn gybolfa garpiog o dwyll, rhagrith, a chnawdolrwydd; ond bu farw ei haddurn penaf, a daeth yr adeg i chwythu udgyrn Seion o amgylch caerau dadfeiliol ei hadeiladwaith, nes y byddant yn chwalu yn deilchion ar ben ei olynydd, ac yn ffurfio carnedd gofnodol o drangcedigaeth Pio Nono a'i Anffaeledigrwydd.

### PER-ENEINNIAD EI GORPH A'I GLADDEDIGAETH.

Per-eneinniwyd y corph ychydig amser wedi ei farwolaeth, a chymerwyd allan y galon yn ol yr arferiad cyffredin, a dodwyd hi yn nghuddgell Eglwys St. Pedr. Cadwyd y corph dan deyrngrwydd, a'i draed yn ddiorchudd, er mwyn rhwyddineb i'r ymwelwyr i'w cusanu, a dywedir fod miloedd o urddasolion wedi cymeryd mantais o'r fraint oruchel hon am y tro olaf. Yr oedd plisgyn allanol ei arch wedi ei wneyd o blwm, a'r plisgyn mewnol o gypreswydden, wedi ei leinio â phali rhuddgoch.

Claddwyd y corph mewn cloerfa yn Eglwys St. Pedr, Rhufain, yr hon a dorwyd yn y mur uwchben y fynedfa i Gapel y Côr. Bwriedir adeiladu Eglwys Goffadwriaethol i'r Pab Pio Nono yn y rhanbarth newydd o Ddinas Rhufain, a dywedir y bydd yn gampwaith cywrain o adeiladwaith, teilwng o'r mwyaf o'r Pabau. Wedi ei gladdedigaeth, ymgynullodd

### Y CEL-GYNGHOR

i ethol ei olynydd. Dygir yr etholiad yn mlaen mewn ystafell ddirgel, lle y gwysir yr holl Gardinaliaid i gymeryd rhan ynddo. Wedi eu cau yn yr ystafell, nid oes rhyddid iddynt fyned i mewn ac allan, ond y maent dan orfod i gwblhau y gwaith mewn llaw cyn cael eu rhyddhau. Y tro hwn rhoddwyd caniatâd i'r Cynghor cynulledig dderbyn papurau newyddion a llythyrau, ond yr oedd yn rhaid i'r rhai hyny fyned trwy ddwylaw y cardinaliaid mewn awdurdod. Nid oes rhyddid iddynt gydymddiddan nac ysgrifenu y naill at y llall tra yn y gel-gynghorfa. Penderfynir ar

olynydd o dan orchudd y tugel, ac nis gellir ethol Pab nes y derbynia ddwy ran o dair o bleidleisiau y cardinaliaid cynulledig. Gellir gweled oddiwrth simnai y gynghorfa pa un a fyddant wedi penderfynu ar Bab yr etholiad cyntaf ai nad ydynt, oblegyd llosgir y papurau etholiadol bob tro nes y ceir y mwyafrif crybwylledig. Wedi gwybod pwy ydyw yr etholedig, plyga y cardinaliaid gwyddfodol i gusanu ei droed, a chymerant lw o ffyddlondeb iddo fel eu tad ysprydol a'u teyrn tymhorol, ac arwisgant ef yn ei urddwisgoedd awdurdodol. Ar yr ugeinfed o Chwefror, wedi eisteddiad byr o ddeuddydd, syrthiodd coelbren y coleg gysegredig ar y Cardinal Pecci, y prif weinidog (o dan Pio Nono) ar yr Eglwys Rufeinig Sanctaidd, ac wedi ei etholiad dewisodd gael ei gydnabod o hyn allan dan yr enw Leo XIII. Desgrifir ef fel un o dueddiadau gwleidyddol cymedrol, yn ddyn o ymddangosiad uwchraddol, ac yn llym yn ei ddullwedd, ond yn berffaith foneddig. Ganwyd ef ar yr ail o Fawrth, 1810, o deulu da, ac y mae yn awr yn 68ain oed. Un peth ynglŷn â'i ddyrchafiad sydd yn taro yn hyfryd ar glustiau y rhai a ddymunant aflwydd i'w deyrnas ydyw, fod sî i'r perwyl fod y llywodraeth Eidalaidd yn myned i roddi mewn grym y gyfraith sydd yn ei galluogi i roddi i lawr fynachdai, a thai crefyddol ereill, ac yn bwriadu drwy yr hawl hono gymeryd meddiant o'r palas Pabaidd, y Vatican, ac y bydd raid i'r Pab presenol chwilio am breswylfa newydd. A fydd iddynt fyned mor bell a hyn sydd gwestiwn, ond pa un bynag, meiddiwn brophwydo FOD PABYDDIAETH I DDARFOD.

---

## PENILLION AR FARWOLAETH PIO NONO.

Do, bu farw Pio Nono!
  Angeu ar ei ddeifiol rawd
Heibio ddaeth, anadlodd arno,
  Gwywodd yntau, dyna'i ffawd.

Ie, ffawd yr *anffaeledig (?)*
  Pan ddaeth gwŷs y Meistr doeth,
Heb nac urdd na gwisg honiedig,
  Dygwyd ef i'w ŵydd yn noeth.

Nid oedd pwysau'r goron driphlyg
  Yn ei olwg Ef ond gwawn;
Nid oedd urdd yr honiad haerllug
  Ddim ond ewyn cwpan lawn.

Brenin y breninoedd hawliai
  Gyfrif goruchwyliaeth faith;
Yntau'r *anffaeledig (?)* blygai,
  Rhaid gwynebu ar y gwaith.

Archoffeiriad mawr y Babaeth,
  Yn agored fel nyni!!
I oer ddychrynfeydd marwolaeth,
  Rhydiau erch y tonog li'.

Tybed fod anffaeledigrwydd
  Iddo'n graig uwchlaw y dòn?
Tybed fod ei urddasolrwydd
  Iddo'n wialen ac yn ffon?

Na, 'does yn y dyffryn garw
  Ddim ond ffydd a'n dwg ni drwy;
Ddim ond cwmni'r Brawd fu farw,
  'N drwydded fry i'r "gwledda mwy."

Cynyg ffug sancteiddiol greiriau
  I drysorfa fawr y nef,
Lle mae milfil o eneidiau
  Yn berlau byw i'w goron Ef.

Gwthio enwau seintiau ffugiol
  Ger bron Duw i ddadleu'n cwyn,
Pan nad oes ond Un i eiriol,
  'R un ddyoddefodd er ein mwyn.

Gristion tlawd, mae genyt cystal
  Hawl i orsedd gras a'r Pab;
Nid oes sant na chrair i'th atal,
  Dos at Dduw yn enw'i Fab.

Dos yn enw Crist ei hunan,
  Cofia am ei angeu loes,
*Esgymunir* byth mo'r truan
  Ddeil yn gadarn wrth y groes.



Digitized by Google

# RHESTR O'R PABAU ER Y DECHREUAD.

| B.A. | |
|---|---|
| 42 | St. Pedr |
| ** | St. Clement |
| 66 | St. Linus |
| 78 | St. Cletusor Anacletus |
| 91 | St. Clement II. |
| 100 | St. Evaristus |
| 109 | St. Alexander |
| 119 | St. Sixtus I. |
| 127 | St. Telesphorus |
| 139 | St. Hyginus |
| 142 | St. Pius |
| 157 | St. Anicetus |
| 168 | St. Soterus |
| 177 | St. Eleutherius |
| 193 | St. Victor |
| 202 | St. Zephyrinus |
| 219 | St. Calixtus |
| 222 | Y gadair yn wag |
| 223 | St. Urban I. |
| 230 | St. Pontianus |
| 235 | St. Anterus |
| 236 | St. Fabian |
| 250 | Y gadair yn wag |
| 251 | St. Cornelius |
| 252 | St. Lucius |
| 253 | St. Stephen |
| 257 | St. Sixtus II. |
| 258 | Y gadair yn wag |
| 269 | St. Dionysius |
| 269 | St. Felix I. |
| 275 | St. Eutychianus |
| 283 | St. Caius |
| 296 | St. Marcellenus |
| 304 | Y gadair yn wag |
| 308 | St. Marcellus |
| 310 | St. Eusebius |
| 311 | St. Milchiades |
| 314 | St. Sylvester |
| 336 | St. Marcus |
| 337 | St. Julius I. |
| 352 | Liberius |
| 355 | Felix II., gwrthbab |
| 358 | Liberius eto |
| „ | Felix, eto yn Bab |
| 359 | Liberius eto |
| 366 | St. Damascus |
| 367 | Ursinus, gwrthbab |
| 384 | Siricius |
| 398 | St. Anastasius |
| 402 | St. Innocent I. |
| 417 | St. Zozimus |
| 418 | St. Boniface I. |
| 422 | St. Celestine I. |
| 432 | Sixtus III. |
| 440 | St. Leo. (Leo Fawr) |

| B.A. | |
|---|---|
| 461 | St. Hilary |
| 468 | St. Simplicius. |
| 483 | St. Felix III. |
| 492 | St. Gelasius |
| 496 | St. Anastasius II. |
| 498 | Symmachus |
| „ | Laurentius, gwrthbab |
| 514 | Hormisdas |
| 523 | Ioan I. |
| 526 | Felix IV. |
| 530 | Boniface II. |
| 533 | Ioan II. |
| 535 | Agapetus |
| 536 | St. Silverius |
| 537 | Vigilius |
| 555 | Pelagius I. |
| 560 | Ioan III. |
| 573 | Y gadair yn wag |
| 574 | Benedict I. |
| 578 | Pelagius II. |
| 590 | St. Gregory Fawr |
| 604 | Sabinianus |
| 606 neu 607 | Boniface III. |
| 607 neu 608 | Boniface IV. |
| 614 neu 615 | St. Deusdedit |
| 617 neu 618 | Boniface V. |
| 625 | Honorius |
| 639 | Y gadair yn wag |
| 640 | Severinus |
| „ | Ioan IV. |
| 642 | Theodorus I. |
| 649 | Martin I. |
| 654 | Eugenius I. |
| 657 | Vitalianus |
| 672 | Adeodatus |
| 676 | Domnus I. |
| 678 | St. Agathon |
| 682 | St. Leo II. |
| 683 | Y gadair yn wag |
| 684 | Benedict II. |
| 685 | Ioan V. |
| 686 | Conon |
| 687 | Sergius |
| 701 | Ioan VI. |
| 705 | Ioan VII. |
| 708 | Sisinnius |
| „ | Constantine |
| 715 | St. Gregory II. |
| 731 | Gregory III. |
| 741 | St. Zacharias. |
| 752 | Stephen II. |
| „ | Stephen II. neu III. |
| 757 | Paul I. |
| 767 | Constantine, gwrthbab |
| 768 | Stephen III neu IV. |

| B.A. | |
|---|---|
| 772 | Adrian I. |
| 795 | Leo III. |
| 816 | Stephen IV. neu V. |
| 817 | Pascal I. |
| 824 | Eugenius II. |
| 827 | Valentinus |
| „ | Gregory IV. |
| 844 | Sergius II. |
| 847 | Leo IV. |
| 855 | Y Pab Joan |
| „ | Benedict III. |
| 858 | Nicholas Fawr I. |
| 867 | Adrian II. |
| 872 | Ioan VIII. |
| 882 | Marinus neu Martin II. |
| 884 | Adrian III. |
| 885 | Stephen V. neu VI. |
| 891 | Formosus |
| 896 | Boniface VI. |
| 897 | Stephen VI. neu VII. |
| „ | Romanus |
| 898 | Theodorus II. |
| „ | Ioan IX. |
| 900 | Benedict IV. |
| 903 | Leo V. |
| „ | Christopher |
| 904 | Sergius III. |
| 911 | Anastasius III. |
| 913 | Landonius neu Lando |
| 914 | Ioan X. |
| 928 | Leo VI. |
| 922 | Stephen VII. neu VIII. |
| 931 | Ioan XI. |
| 936 | Leo VII. |
| 939 | Stephen VIII neu IX. |
| 942 | Marinus II. neu Martin [III. |
| 946 | Agapetus II. |
| 956 | Ioan XII. |
| 963 | Leo VIII. |
| 964 | Benedict V. |
| 965 | Ioan XIII. |
| 972 | Benedict VI. |
| 974 | Domnus II. (Boniface [VII.) |
| 984 | Ioan XIV. |
| „ | Ioan XV. |
| 985 | Ioan XVI. |
| 996 | Gregory V. (Ioan XVII.) |
| 999 | Sylvester II. |
| 1003 | Ioan XVII. |
| „ | Ioan XVIII. |
| 1009 | Sergius IV. |
| 1012 | Benedict VIII. |
| 1024 | Ioan XIX. |
| 1033 | Benedict IX. |
| 1044 | Sylvester III., gwrthbab |


Digitized by Google

B.A.
1044 Gregory VI.—Sylves-
ter ac Ioan XX.
1046 Clement II.
1047 Benedict eto
1048 Damascas II.
„ St. Leo IX.
1054 Yr orsedd yn wag
1055 Victor II.
1057 Stephen IX. neu X.
1058 Benedict X., gwrthbab
„ Nicholas II.
1061 Alexander II.
1073 St. Gregory VII.
1080 Clement III. gwrthbab
1085 Yr orsedd yn wag
1086 Victor III.
1088 Urban II.
1099 Pascal II.
1118 Gelasius II.
1119 Calixtus II.
1124 Honorius II.
1130 Innocent II.
1138 Victor III., gwrthbab
1143 Celestine II.
1144 Lucius II.
1145 Eugenius III.
1153 Anastasius IV.
1154 Adrian IV. (Sais)
1159 Alexander III.
1159 Victor IV.
1164 Pascal III.
1168 Calixtus III.
1178 Innocent III.
1181 Lucius III.
1185 Urban III.
1187 Gregory VIII.
„ Clement III.
1191 Celestine III.
1198 Innocent III.
1216 Honorius III.
1227 Gregory IX.
1241 Celestine IV.
1243 Innocent IV.

B.A.
1254 Alexander IV.
1261 Urban IV.
1265 Clement IV.
1268 Yr orsedd yn wag
1271 Gregory X.
1276 Innocent V.
„ Adrian V.
„ Vicedominus.
„ Ioan XX. neu XXI.
1277 Nicholas III.
1281 Martin IV.
1285 Honorius IV.
1288 Nicholas IV.
1292 Yr orsedd yn wag
1294 St. Celestine V.
1294 Boniface VIII.
1303 Benedict XI.
1304 Yr orsedd yn wag
1305 Clement V.
1314 Yr orsedd yn wag
1316 Ioan XXII.
1334 Benedict XII.
1342 Clement VI.
1352 Innocent VI.
1362 Urban V.
1370 Gregory XI.
1378 Urban VI.
1378 Clement VII., gwrth-
1389 Boniface IX. [bab
1394 Benedict XIII. gwrth-
1404 Innocent VII. [bab
1406 Gregory XIII., gwrth-
1409 Alexander V. [bab
1410 Ioan XXIII.
1417 Martin V.
1424 Clement VIII., gwrth-
1431 Eugenius IV. [bab
1447 Nicholas V.
1455 Calixtus III.
1458 Pius II.
1464 Paul II.
1471 Sixtus IV.
1484 Innocent VIII.

B.A.
1492 Alexander VI.
1503 Pius III.
„ Julius II.
1513 Leo X.
1522 Adrian VI.
1523 Clement VII.
1534 Paul III.
1550 Julius III.
1555 Marcellus II.
„ Paul IV.
1559 Pius IV.
1566 St. Pius V.
1572 Gregory XIII.
1585 Sixtus V.
1590 Urban VII.
1590 Gregory XIV.
1591 Innocent IX.
1592 Clement VIII.
1605 Leo XI.
„ Paul V.
1621 Gregory XV.
1623 Urban VIII.
1644 Innocent X.
1655 Alexander VII.
1667 Clement IX.
1670 Clement X.
1676 Innocent XI.
1689 Alexander VIII.
1691 Innocent XII.
1700 Clement XI.
1721 Innocent XIII.
1724 Benedict XIII.
1730 Clement XII
1740 Benedict XIV.
1758 Clement XIII.
1769 Clement XIV.
1775 Pius VI.
1800 Pius VII.
1823 Leo XII.
1831 Gregory XVI.
1846 Pius IX.
1878 Leo XIII. (Feçci,) y
pab presenol.

*** Yr ydym yn cyfleu y rhestr flaenorol yn fwy oddiar gywreinrwydd nag oddiar grediniaeth yn ei chywirdeb, yn enwedig y rhanau dechreuol o honi. Cynwysa bob math o gymeriadau, da a drwg; a dywedir fod un o honynt, y Pab Joan (855) yn ddynes, a darfod geni plentyn iddi!! Ereill a ystyriant ei hetholiad yn ffugiol. Yr oedd lluaws o honynt yn ddynion talentog a dysgedig, ereill yn orthrymwyr creulawn a diegwyddor. Cafodd rhai o honynt eu merthyru, ereill eu llofruddio mewn amrywiol ffyrdd; ereill eu halltudio am eu drygioni, a bu rhai o honynt feirw yn ngharchar. Pan y dywedir "gwrthbab," golygir fod dau Bab ar yr un adeg, y naill yn gwrthwynebu y llall, ac eto y ddau, mae yn debyg, yn hòni anffaeledigrwydd. Yr unig Sais a eisteddodd erioed yn Nghadair St. Pedr ydoedd Nicholas Brakespeare (Adrian IV., 1154).

———o———



Digitized by Google